Adroddiad Llywydd UMAber - CCB a Chyngor yr Undeb, 5 Rhagfyr 2016

Mae'r tymor cyntaf fel Llywydd UMAber wedi bod yn gyfnod anhygoel, a hoffwn ddechrau drwy ddiolch i fy Nhîm Swyddogion ardderchog eleni am eu holl waith caled hyd yma. Hefyd diolch i bawb sydd yn yr ystafell hon a'r holl fyfyrwyr sydd wedi cyfranogi ym mhopeth rydyn ni wedi'i wneud, oherwydd wedi'r cyfan, fydden ni ddim yma o gwbl hebddo chi i gyd.

Dydyn ni ddim wedi cael cyfarfod ffurfiol fel hwn ers i mi ddechrau yn y rôl fel Llywydd, felly dwi'n mynd i gychwyn drwy fynd yn ôl i'r haf am ychydig. Llynedd, pan oeddwn i'n Swyddog Addysg, ysgrifennais at dîm Pwyllgor Gwaith y Brifysgol i ofyn a allai'r UM siarad yn y Ddefod Raddio, oherwydd yn y gorffennol ychydig iawn o son fu am gyrhaeddiad myfyrwyr gydol y seremoni, ar wahân i chi'n derbyn eich tystysgrifau gradd wrth gwrs. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i hyn, diolch byth, ac am y tro cyntaf hyd y gwn i, cyflwynodd Swyddogion yr UM araith ym mhob defod raddio, gan roi trosolwg cryno o rai o'r pethau anhygoel mae ein myfyrwyr wedi'i wneud dros y flwyddyn a aeth heibio. Roedd adeg graddio hefyd yn amser arbennig iawn i mi a llawer o bobl eraill, oherwydd i mi hefyd fod yn llwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf gyda'r ymgyrch dros sicrhau bod Stefan Osgood yn derbyn ei radd *honoris causia.* Roeddwn yn eithriadol o ffodus i gael y cyfle i gyflwyno'r dystysgrif i Heidi a Los ar ei ran a chydnabod ei ymroddiad i'r Brifysgol a'r UM yn ffurfiol yn y ffordd yma. Roeddwn hefyd yn ddigon ffodus i gael gwahoddiad i gyflwyno gradd er anrhydedd i Aled Haydn Jones o Radio 1, oedd yn brofiad braf; dydw i ddim yn credu i mi wneud gormod o lanast o'r Gymraeg yn ystod fy areithiau fel bod unrhyw un wedi sylwi.

Dros yr haf, dechreuodd y tîm swyddogion newydd, a chynhaliwyd cryn lawer o hyfforddiant ac adeiladu tîm a.y.b. gan fynd ati o ddifrif i gynllunio ar gyfer y flwyddyn, cyn Wythnos y Glas. Roedd cyfnod y Glas eleni'n wythnos anhygoel, a dwi'n gobeithio bod unrhyw fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf sydd yn yr ystafell wedi cael profiad cyntaf gwych o Aberystwyth. Dydw i ddim yn mynd i dreulio gormod o amser yn son am Wythnos y Glas, gan fod gen i lawer o bethau i'w trafod!

Serch hynny, yn ystod Wythnos y Glas, lansiodd Naomi, gweddill y tîm a finnau ein prif ymgyrch ar gyfer y flwyddyn; #SanauStefan. Dwi'n sicr bod llawer ohonoch yn ymwybodol o amcan yr ymgyrch, sef codi ymwybyddiaeth, dechrau sgyrsiau ynglŷn ag iechyd meddwl a rhoi terfyn ar y stigma sy'n perthyn iddo. Hyd yma, rydyn ni wedi gwerthu dros 300 pâr o #SanauStefan, ac mae'r ymgyrch, gan gynnwys y parti lansio, gêm rygbi elusennol, gwerthu sanau a rhoddion, wedi codi dros £1,100 ar gyfer MIND Aberystwyth. Yn gysylltiedig â'r ymgyrch hon, bydd Naomi a finnau'n cyhoeddi ein hymgyrch "Negeseuon Nadoligaidd" fydd hefyd yn codi arian ar gyfer MIND Aberystwyth, gan helpu i ledaenu llawenydd a dymuniadau da dros yr ŵyl. Mae tudalen benodol ar y we ar gyfer #SanauSteffan ar y gweill hefyd.

Ac ar y pwnc o godi arian, bob blwyddyn mae'r UM yn dewis 3 phrif elusen, ac rydyn ni wedyn yn annog myfyrwyr i godi arian ar eu cyfer drwy ddigwyddiadau RAG a.y.b. Byddwn hefyd yn mynd ati i godi arian ein hunain, ac eleni rydyn ni'n eithriadol o falch o fod yn cefnogi MIND Aberystwyth, Ambiwlans Awyr Cymru a'r *Teenage Cancer Trust*.

Felly, ymlaen i addewidion maniffesto a.y.b. dwi wedi bod yn gweithio arnyn nhw. Yn gyntaf, dwi wedi bod yn gwneud cryn lawer o waith i gynnig cefnogaeth i'n myfyrwyr Cymraeg, a dwi wedi bod yn lobïo TurnItIn i ddarparu eu meddalwedd yn Gymraeg, gan ei bod braidd yn chwerthinllyd bod pob prifysgol yng Nghymru'n ei ddefnyddio, a'u bod yn ei darparu mewn 30 iaith, ond ddim yn

Gymraeg. O ganlyniad i fy lobïo dros yr ychydig fisoedd diwethaf, maen nhw wedi ymgynghori â phrifysgolion ynglŷn â'u hangenion ar gyfer rhyngwyneb cyfrwng Cymraeg a system cydweddu testun. Dwi hefyd wedi lansio Gair Cymraeg yr Wythnos eleni, sy'n cyflwyno gair Cymraeg newydd bob wythnos er mwyn i bobl ei ddysgu a'i ddefnyddio.

Dwi wedi lansio ymgynghoriad â myfyrwyr sy'n astudio yn Llanbadarn ynglŷn â beth maen nhw eisiau o'r brifysgol a'r undeb mewn sawl maes, a dwi'n gweithio gyda'r Brifysgol ar yr hyn ddaw allan o'r ymgynghoriad er mwyn gwneud cynnydd ar y campws hwnnw.

Byddaf yn lansio ymgynghoriad ar gostau cudd ar gyrsiau a gwir gost bod yn fyfyriwr cyn bo hir, a'r gobaith yw y gallwn leihau rhai costau ar y campws a'i gwneud yn haws bod yn fyfyriwr yn Aberystwyth o ran costau. Ar y testun o arian, mae Jazz a fi wedi bod yn gweithio gyda'r Brifysgol fel rhan o weithgor newydd sy'n trafod sut rydyn ni'n cyllido chwaraeon, sy'n cynnwys ceisio gwneud i'r cerdyn sborti diflannu. Byddwn hefyd yn cyflwyno modelau ac opsiynau yn y flwyddyn newydd, cyn rownd gynllunio nesaf y Brifysgol.

Ymysg y pethau cyffredinol o fy maniffesto sydd wedi bod yn digwydd, mae gwaith ar yr adolygiad o ddemocratiaeth, ail-gynllunio'r wefan, cyfryngau cymdeithasol a strategaeth.

Felly, dyma rai pethau cyffrous dwi wedi bod yn gweithio arnyn nhw ☺ Dwi wedi llwyddo cael gafael ar gyllido ychwanegol o GronfaAber, sy'n cynnwys £1,000 ar gyfer cynrychiolwyr academaidd a myfyrwyr ôlraddedig, a  £5,000 ar gyfer prosiectau a chymorth gwirfoddoli.

Mae Naomi a fi wedi bod yn gweithio ar wasanaethau iechyd ac iechyd meddwl lleol, ac rydym wedi llunio adroddiad gan ddefnyddio ymatebion i arolwg ymysg myfyrwyr. Rydyn ni wedi cwrdd â'r bwrdd iechyd i drafod y materion hyn ac wedi cytuno ar gyfer y ffordd ymlaen. Bydd y bwrdd iechyd yn darparu ymateb i hyn maes o law, ond mae'n broses wirioneddol gyffrous.

Mae Ryan a fi wedi ysgrifennu ymateb i Strategaeth Addysg Uwch Llywodraeth Cymru; ni oedd yr unig undeb myfyrwyr i wneud hynny, felly rydyn ni wedi bod yn gweithio'n glòs ar faterion cenedlaethol o'r math yma a mwy. Rydym hefyd wedi gweld rhyddhau Adolygiad Diamond a thaith Bil AU y DU drwy San Steffan; rwyf wedi bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r naill a'r llall.

Yn fy rôl fel Llywydd a Chadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, rydw i wedi  bod yn canolbwyntio cryn lawer ar swyddogaeth ymddiriedolwyr a phethau rydyn ni wedi clywed amdanyn nhw eisoes, megis adolygiad o'r swyddogion, llywodraethiant a datblygiad strategaeth.

Ddydd Gwener diwethaf, cynhaliwyd Diwrnod #CaruUMau sy'n ddiwrnod cenedlaethol ar gyfer dathlu gwaith Undebau Myfyrwyr, wedi'i gydlynu gan UCM. Dosbarthwyd tua 5kg o losin am ddim i fyfyrwyr ar y campws, a chafwyd cyfle i sgwrsio â myfyrwyr ynglŷn â pham maen nhw'n caru'r undeb a sut rydyn ni wedi helpu a chynnig cefnogaeth i fyfyrwyr. Hefyd, fe'n darparwyd â syniad gwych o ran yr hyn sydd angen i ni ei wneud yn y dyfodol er mwyn parhau i gynnig cymorth i fyfyrwyr.

Fel unigolyn, gwnes gais i fod yn asesydd ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, sy'n gweithio'n glòs gyda Llywodraeth y DU ar fentrau AU cenedlaethol. Er nad wyf yn cytuno'n llwyr â chysyniad y FfRhA, mae'n well bod yn gwybod beth sy'n digwydd a gweithio i'w wneud yn well, yn hytrach na'i wrthwynebu heb unrhyw lwyddiant. Dwi hefyd wedi cael fy ethol yn aelod o Bwyllgor Gwaith

Cenedlaethol UCM Cymru, sy'n gweithio ar bolisi Cymru-gyfan ac yn dal swyddogion llawn-amser UCMC i gyfrif, a dwi'n teimlo'n gyffrous ynglŷn â gweithio gyda'r PGC eleni.

Dwi hefyd yn treulio cryn lawer o amser yn eistedd ar bwyllgorau'r Brifysgol, yn cynrychioli myfyrwyr a mynychu cynadleddau ar ran UMAber; mae rhestr o'r rhain i'w gweld isod. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â gwaith unrhyw bwyllgor dwi'n perthyn iddo, neu unrhyw gynhadledd dwi wedi'i mynychu, yna rhowch wybod i mi.

Hoffwn orffen drwy ddiolch i bawb unwaith eto am gael semester cyntaf mor anhygoel fel Llywydd, ac os ydych chi am siarad â fi ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso i chi gysylltu drwy Twitter (@AberSUPresident), e-bost (undeb.llywydd@aber.ac.uk) neu gallwch alw heibio i fy ngweld. Dwi'n fodlon siarad â myfyrwyr ynglŷn ag unrhyw beth dan haul, a fy swyddogaeth i yw gwrando arnoch chi, felly dewch heibio am sgwrs ☺

Diolch yn fawr

Cynadleddau a Digwyddiadau

*SU16* UCM y DU
Y Talwrn UCM Cymru
*NUS Lead & Change* ar gyfer Llywyddion
*NUS Union Development Zone*
Cynhadledd Maes UCM Cymru
Cyfarfod Llywyddion a Phrif Weithredwyr UCM Cymru
Eisteddfod Genedlaethol 2016
Gwobrau'r *Times Higher Education*
Diwrnod Sylfaenwyr Prifysgol Aberystwyth
Diwrnodau Agored Prifysgol Aberystwyth
Graddio Prifysgol Aberystwyth
Cyflwyniadau ac Areithiau yn ystod yr Wythnos Groeso

Pwyllgorau Cyfarfodydd

CCB a Chyngor UMAber
Bwrdd Ymddiriedolwyr UMAber
Swyddogion Pwyllgor Gwaith UMAber
Swyddogion, Prif Weithredwr a Rheolwyr UMAber
Recriwtio Staff UMAber
Datblygiad Strategaeth ac Adolygu Rôl Swyddogion UMAber
Grŵp Llywio CerdynAber
Bwrdd Academaidd
Elin Jones (AC)
Gweithgor Adborth ac Asesiad
Pwyllgor Cyllid a Strategaeth
Gweithgor Cofnod Cyrhaeddiad mewn AU
Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd
Grŵp Gweithredu ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Pwyllgor Darpariaeth Cydweithredu Rhyngwladol
Pwyllgor Buddsoddiadau
Joyce Watson (AC)
Fforwm Dadansoddi Dysgu
Datblygiad Llanbadarn
Mark Williams (AS)
Hyrwyddwyr yr ACF
Bwrdd Prosiect yr Hen Goleg
Cymdeithas yr Hen Fyfyrwyr
Bwrdd Prosiect Pantycelyn
Grŵp Gwella Tiwtoriaid Personol
Pwyllgor Recriwtio a Marchnata
Simon Thomas (AC)
Grŵp Rheoli Lleoliadau
Grŵp Cerdyn Sborti a Chyllido Chwaraeon
Pwyllgor Cefnogaeth i Fyfyrwyr
Cyngor y Brifysgol a Diwrnod i ffwrdd o'r safle'r Cyngor
Pwyllgor Gwaith y Brifysgol a Phwyllgor Gwaith UMAber
Senedd y Brifysgol a Diwrnod i ffwrdd o'r safle'r Senedd
Cyfarfodydd Recriwtio'r Is Ganghellor a Grwpiau Ffocws

<u>Hyfforddiant a Datblygiad:</u>

Hyfforddiant Swyddogion
Hyfforddiant Ymddiriedolwyr
Hyfforddiant Cyllid ar gyfer Rheolwyr sydd ddim yn ymwneud â Chyllid
Diwrnod Datblygu Staff UMAber
Hyfforddiant Aseswyr y Rhwydwaith Rhagoriaeth Addysgu